Ysgol Uwchradd Glan Clwyd
Ffordd Dinbych
Llanelwy
LL17 0RP

03/03/2025

Annwyl Sian Alwen

**Ymweliad Interim:** Ionawr 2025

Diolch am eich cefnogaeth i drefnu ein hymweliad interim â'r ysgol. Fe wnaethom fwynhau'r cyfle i gwrdd â chi, eich staff a'ch disgyblion a chlywed mwy am y gwaith gwella y mae'r ysgol wedi'i wneud ers yr arolygiad craidd.

Yn ystod ein hymweliad, cawsom gyfle i:

- Siarad ag uwch arweinwyr am eich gwaith gwella a sut rydych chi'n cefnogi athrawon.
- Siarad â disgyblion am eu gwaith yn y gwersi a chlywed eu barn am yr ysgol mewn cyfarfodydd.
- Ymweld â gwersi a theithiau dysgu ar draws yr ysgol i weld disgyblion a staff yn ymgymryd â'u gwaith.
- Arsylwi ar y cyd gydag uwch arweinwyr gan drafod yr hyn a welwyd.
- Ymgymryd â gweithgareddau craffu ar sampl o lyfrau gydag arweinwyr canol ac uwch arweinydd.
- Siarad ag arweinwyr rhifedd a llythrennedd am ddarpariaeth yr ysgol i ddatblygu medrau disgyblion.
- Siarad gyda chriw o athrawon, arweinwyr a staff cymorth am eu gwaith yn cefnogi lles disgyblion

## Ffocws yr ymweliad

### Codi disgwyliadau disgyblion ac athrawon o ran ymddygiad a'r Gymraeg

### Cryfderau

Trwy ein sgyrsiau gydag arweinwyr, staff a disgyblion, mae'n ymddangos bod yr ysgol wedi mynd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn briodol ac yn amserol. Mae'n ymddangos bod arweiniad clir wedi ei roi i staff parthed disgwyliadau o ran ymddygiad disgyblion a'r defnydd o'r Gymraeg mewn gwersi ac yn ystod cyfnodau di-gyswllt. Roedd yn galonogol clywed gan staff ar bob lefel bod y pennaeth yn arddel diwylliant cryf o Gymreictod a'i bod yn atgoffa staff yn ddi-flino am y pwysigrwydd o gynnal safonau'r Gymraeg ym mhob agwedd o waith yr ysgol. Mae'n ymddangos bod yr ysgol yn manteisio ar bob cyfle i ddathlu'r Gymraeg a Chymreictod trwy amrywiol weithgareddau.

Mae'r ysgol wedi buddsoddi mewn systemau newydd i hyrwryddo ymddygiad ac ymdrech dda ac i reoli ymddygiad. Ymddengys bod y system hon yn eglur i ddisgyblion a staff fel ei gilydd a bod cysondeb ymysg llawer o'r staff wrth ddilyn y camau cytunedig. Fodd bynnag, rydym yn cytuno gyda'r ysgol bod angen sicrhau bod yr holl staff yn dilyn y camau cytunedig wrth wobrwyo neu ymateb i ymddygiad er mwyn sicrhau bod y system yn deg i bob disgybl.

Mae arweinwyr wedi sefydlu trefniadau clir i reoli a monitro'r ddarpariaeth cefnogi ymddygiad, gan gynnwys cyfarfodydd cyson i drafod materion sy'n codi ac adnabod tueddiadau. Ceir cyfarfodydd pwrpasol hefyd i gynllunio ac yna ystyried effeithiolrwydd unrhyw ymyraethau a chefnogaeth i unigolion, grwpiau o ddisgyblion a hefyd i staff sydd angen arweiniad.

Rydym yn credu y byddai'n ddefnyddiol i chi ystyried:

- I ba raddau mae'r holl staff yn glir bod cyfrifoldeb personol arnynt i osod disgwyliadau uchel o ran ymddygiad, gwrandawiad ac ymgysylltiad disgyblion yn eu gwersi, ynghyd â'u cyfranogiad yn y Gymraeg?
- A oes digon o ffocws ar agweddau disgyblion at ddysgu a'u hymdrechion yn y Gymraeg a sut mae athrawon yn cefnogi hyn yn ystod gweithgareddau sicrhau ansawdd?

Estyn, Llys Angor, Heol Keen, Caerdydd, CF24 5JW Ffôn: 02920 446446
ymholiadau@estyn.llyw.cymru
www.estyn.llyw.cymru

Estyn, Anchor Court, Keen Road, Cardiff, CF24 5JW Telephone: 02920 446446 enquiries@estyn.gov.wales
www.estyn.gov.wales

Mae Estyn yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Bydd gohebiaeth a dderbynnir yn y naill iaith neu'r llall yn cael yr un flaenoriaeth.

Estyn welcomes correspondence in both English and Welsh. Correspondence received in either language will be given equal priority.

### Sicrhau darpariaeth fwy cydlynol ar draws yr ysgol er mwyn datblygu medrau disgyblion, yn arbennig eu medrau llythrennedd a rhifedd

Ers yr arolygiad craidd, mae arweinwyr wedi llunio strategaeth glir i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion. Yn ystod ein cyfarfodydd gydag ychydig staff, roeddent yn ymwybodol o bwysigrwydd datblygu'r medrau ac yn glir o'u rolau o ran gweithio tuag at y flaenoriaeth hon. Mae arweinwyr yn rhoi hyfforddiant cyson i staff ac yn cynnal sesiynau boreol buddiol er mwyn cynnig arweiniad a rhannu'r arferion gorau. Mae strategaethau cytunedig, megis 'Byw'r Gymraeg' i wella safonau llafar y disgyblion. Gwelwyd sawl enghraifft o'r strategaeth hon ar waith yn y gwersi a arsylwyd.

Mae'r cydlynwyr llythrennedd a rhifedd wedi cydweithio gydag adrannau penodol er mwyn adnabod cyfleoedd i ddatblygu'r medrau ac maent yn darparu cefnogaeth yn ôl yr angen. Mae'n ymddangos bod amrywiaeth o gyfleoedd buddiol mewn pynciau perthnasol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau ysgrifennu estynedig.

Mae arweinwyr wedi dechrau gwerthuso effaith y gwahanol strategaethau ar safonau llythrennedd a rhifedd y disgyblion. Rydym yn cytuno gyda'r ysgol bod angen darparu mwy o gyfleoedd o ansawdd i ddisgyblion ddatblygu eu huwch fedrau darllen ar draws y pynciau a'u medrau rhifedd mewn pynciau perthnasol. Mae arweinwyr yn ymwybodol o'r angen i sicrhau cysondeb pellach wrth i athrawon gywiro gwallau iaith yng ngwaith disgyblion.

Credwn y byddai'n fuddiol i chi ystyried y canlynol:

- Sut bydd arweinwyr yn gwerthuso gwir effaith y strategaethau i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd ar safonau a chynnydd disgyblion mewn gwersi a thros amser?
- Sut bydd arweinwyr yn sicrhau bod athrawon yn cynllunio cyfleoedd cyfoethog i ddatblygu medrau rhifedd disgyblion mewn pynciau perthnasol ynghyd a'u huwch fedrau darllen ar draws y pynciau?
- A yw'r holl staff yn glir o'u rôlau wrth gefnogi datblygiad medrau llafar disgyblion a sut y gall athrawon wella cywirdeb a mynegiant disgyblion trwy strategaethau cytunedig?

### Pa mor effeithiol yw'r trefniadau cynllunio ar gyfer gwelliant?

Mae'n ymddangos bod arweinwyr wedi mynd i'r afael ag argymhellion yr arolygiad craidd yn 2022. Roedd yn dda gweld bod y cynllun gwella ysgol yn cynnwys pum blaenoriaeth synhwyrol a bod gwaith yr ysgol wedi'i seilio'n glir ar y meysydd gwella hyn dros y flwyddyn. Mae'r blaenoriaethau gwella pynciol a welwyd yn glir ac mae hyn yn galluogi arweinwyr a staff i ffocysu'n agos ar y materion allweddol sydd angen eu gwella.

Mae'r drefn sicrhau ansawdd yn synhwyrol ac mae gweithgareddau pwrpasol wedi eu trefnu ar draws y flwyddyn i alluogi arweinwyr ar bob lefel i fonitro ansawdd ac i werthuso cynnydd yn erbyn targedau. Mae'n dda nodi bod uwch arweinwyr wedi sicrhau bod arweinwyr canol yn datblygu yn eu rolau trwy fod yn rhan o weithgareddau sicrhau ansawdd. Ar y cyfan, mae cofnodion yn awgrymu bod arweinwyr yn rhoi ffocws fuddiol ar agweddau o addysgu a'r ddarpariaeth pan yn arsylwi gwersi a chraffu ar waith disgyblion.

Ers penodiad y pennaeth mae trefniadau rheoli llinell yn glir ac mae gwell strwythur i gyfarfodydd. Mae hyn yn caniatau i arweinwyr ar bob lefel i ddwyn staff yn atebol. Mae cyfarfodydd rheoli yn ffocysu'n agos ar gynnydd yn erbyn blaenoriaethau gwella ac, yn gyffredinol, mae camau gweithredu a chyfrifoldebau yn glir. Mae'n ymddangos bod y cyfarfodydd rheolaeth ganol cwricwlwm a bugeiliol ('SAS' – grwp strategol arwain safonau) yn rhoi cyfleoedd buddiol i arweinwyr gyd-drafod, rhannu arferion da ac i gynllunio cefnogaeth i'w gilydd, ac mae hyn yn cael ei werthfawrogi ganddynt.

Credwn y byddai'n fuddiol i chi ystyried:

- Sut bydd arweinwyr yn mireinio'r gweithgareddau sicrhau ansawdd i'w galluogi i ffocysu'n agosach ar safonau a chynnydd disgyblion yn eu gwybodaeth, dealltwriaeth a'u medrau?
- I ba raddau mae uwch arweinwyr yn ystyried yr ystod eang o ddata cyrhaeddiad a lles sydd ar gael i osod targedau ac i werthuso effaith gwaith arweinwyr canol?

Rydym yn dymuno'n dda i chi gyda'ch datblygiadau yn y dyfodol. Diolch unwaith eto am y croeso gawsom yn yr ysgol, am eich holl help i gynllunio a threfnu ein hymweliad ac am y cydweithio hawddgar.

Gellir dod o hyd i adroddiad arolygu craidd diweddaraf yr ysgol/UCD a gwybodaeth bellach am broses a phwrpas ymweliadau interim ar ein gwefan: http://www.estyn.llyw.cymru/darparwr/6634020

Yn gywir



**Catherine Evans**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol